

# **Adroddiad Blynyddol Menter Iaith Sir Conwy**

## **Ebrill 2008 – Mawrth 2009**

### **Rhagair**

Hyderwn y bydd yr adroddiad hwn yn cyfleu darlun o waith a chyfeiriad cyffredinol Menter Iaith Conwy – gan gynnwys ei llwyddiannau, ei rhwystrau a'i methiannau. Ceir cofnod manylach o waith y fenter yn ein hadroddiadau Chwarterol.

### **Cynllun Datblygu Gwledig**

Nodwyd yn ein hadroddiad diwethaf ein penderfyniad i wneud pum cais i'r Cynllun Datblygu Gwledig. Arian Ewropeaidd yw hwn sydd ar gael trwy'r Cynulliad a'r Cyngor Sir i ddatblygu cynlluniau o fewn ardaloedd gwledig. Buddsoddodd tri swyddog o fewn Menter Iaith Conwy lawer o amser i mewn i'r ceisiadau yma. Gallwn gyhoeddi yn yr adroddiad yma fod y pum gais wedi bod yn llwyddiannus. Golygai hyn naid sylweddol ymlaen i'r Fenter. Bu rhaglen gyson o weithgareddau ar draws rhan helaeth o'r Sir, gyda nifer ohonynt wedi eu cynllunio gan y Pwyllgorau Ardal. Mae cofnod manwl o'r rhaglen yma ar gael.

### **Sefydlu tri Phwyllgor Ardal Newydd**

Cyfansoddwyd Pwyllgorau Pen Llan, Creuddyn a'r Berfeddwlad. Mae'r tri phwyllgor wedi llwyddo i ddenu £1000 i redeg rhaglenni perthnasol yn eu hardaloedd.

Mae cynlluniau i ddatblygu pwyllgor yn Ardal Uwch Aled a phwyllgor arall yn ardal Betws y Coed a Chapel Curig.

### **Cynlluniau Ardal Bwrdd yr Iaith**

Fe'n hysbyswyd bod y cynllun yma yn dod i ben. Bydd y Fenter a swyddogion BYIG yn cydweithio efo'i Bwyllgor i sicrhau ei barhad a bod y pwyllgor yn dod yn rhan o rwydwaith pwyllgorau ardal MIConwy.

### **Cyfarfod Blynyddol**

Cynhaliwyd ail Gyfarfod Blynyddol Menter Iaith Conwy yng Nghanolfan Glasdir, Llanrwst yng Ngorffennaf 2008, pryd y cafwyd cyflwyniad gan Richard Brunstrom Pennaeth Heddlu'r Gogledd.

Roedd y niferoedd a fynychodd ychydig yn uwch na llynedd, a llwyddwyd i ethol swyddogion newydd.

### **Aelodau Pwyllgor Menter Iaith Conwy Ebrill 2008 – Mawrth 2009**

Cadeirydd – Gwyn Roberts

Trysorydd – Cyng. Angharad Booth Taylor, Cyngor Sir Cyngor

Ysgrifennydd – Teleri Hughes – Staff

Baudewijn Morgan – Dysgwyr

Eirian Jones – Gwirfoddol

Eleri Evans – Materion Staffio

Wyn Jones – Materion Staffio

Tecwyn Ifan – Heb Bortffolio

Huw Prys – Heb Bortffolio

Meirion Davies – Staff

# Strwythur Staffio'r Fenter


Gwelwyd newid yn ein strwythur yn bennaf oherwydd newid yn ein cronfeydd cyllidol a dymuniad y Fenter i drefnu gwaith ar y Glannau yn effeithiol.

Penderfynwyd ailstrwythuro o fewn MIConwy a chreu Swyddog Ardal Arfordirol yn hytrach na Swyddog Maes cyffredinol. Fel canlyniad roedd yn rhaid mynd trwy gyfnod o ail-strwythuro efo cymorth ACAS. Roedd hyn yn golygu ymgynghoriad ar y holl broses. Gellir cael gafael ar y dogfennau yma os dymunir.

Roedd rhaid i ddau aelod o staff gesio am y swydd newydd ac o ganlyniad collwyd ein "Swyddog Maes" oedd wedi bod yn gyflogedig efo'r Fenter ers 5 mlynedd. Hoffai'r Prif Swyddog a'r Pwyllgor diolch iddo (Deiniol Thomas) am ei gyfraniad i waith MIConwy dros y cyfnod yma.

Yn fuan ar ôl y broses ailstrwythuro gychwynnol yma cadarnhawyd fod ein ceisiadau CDG wedi bod yn llwyddiannus. Golygai hyn roedd tair swydd newydd uniongyrchol ac un anuniongyrchol. Golyga hyn fod rhai swyddi yn dod i ben tra bod rhai newydd yn cychwyn.

**Dyma fydd strwythur newydd Menter Iaith Conwy (MIC).**



## **Cyllid 2009 – 10**

£83,000 Bwrdd yr Iaith Gymraeg

£73,000 Cynllun Datblygu Wledig (manylion isod)

£50,000 Trosiant Cyfieithu Cymunedol Conwy

£10,000 CAE (Parc Eryri) – Swyddog Ardal Wledig

£19,000 Cronfa Datblygu Gymdeithasol Cyngor Sir Conwy. Cynllun yr Hen Ysgol

£5,000 Arian i Bawb, Cynllun Gemau Buarth storion Digidol

£5,000 Cytundeb Lefel Gwasanaeth Adran Prif Weithredwr Cyngor Sir Conwy

£4,000 Cytundeb Lefel Gwasanaeth Adran Addysg Cyngor Sir Conwy

£5,000 Cyngor y Celfyddydau, gweithdai celfyddydol.

£1,000 Adran Celf Cyngor Conwy, Llanast Llanrwst.

£1,000 Cynllun Ardal Llanrwst, Llanast Llanrwst.

£1,000 Cist Gymunedol Conwy (Sportslot) Hyfforddi Syrffio

£500 Cyngor y Celfyddydau, Llanast Llanrwst

£500 Busnesau Tref Llanrwst, Llanast Llanrwst.

Ceir manylion llawn ein cyllideb yn y Cyfrifon Blynnyddol

### **Cronfeydd Cynllun Datblygu Wledig**

- 1) Gwersi Cymraeg i niferoedd bychain. Yn aml ni all dysgwyr fynychu cyrsiau ar ôl gwersi blwyddyn 1 mewn ardaloedd gwledig am nad oes yno ddigon o niferoedd i redeg y cwrs. Bydd modd i grwpiau bychain ymrwymedig dderbyn hyfforddiant dwys er mwyn dod yn rhugl eu Cymraeg.
- 2) Hyfforddiant Awyr Agored. Mwy o arian i gynorthwyo siaradwyr Cymraeg i hyfforddi a dod yn gyflogedig yn y maes awyr agored. Ar hyn o bryd dim ond tua 5% o weithlu canolfannau awyr agored y Gogledd Orllewin sydd yn siarad Cymraeg.
- 3) Cyfieithu Cymunedol Conwy. Arian i gryfhau gwasanaeth Cyfieithu Cymunedol Conwy. Bwriad y cynllun hwn yw cynorthwyo hyfforddi'r sector gymunedol a gwirfoddol i allu cynnig gwasanaethau yn ddwyieithog.
- 4) Cynllun Gwreiddiau Conwy – Cynllun fydd yn datblygu rhaglen o gynlluniau diwylliannol a threftadaeth yn y Sir.
- 5) Cynllun yr Hen Ysgol, Llanrwst. Arian i gyflogi swyddog bydd yn mynd ati i ddatblygu adeilad yr Hen Ysgol yn Llanrwst ar gyfer budd y gymuned a'r Gymraeg.

# Cynlluniau Gwireddu Strategaeth

Rhannwyd yr adroddiad yn ôl amcanion Cynllun Strategaethol 07-10

## 1) Prosiect Busnes

Bu parhad mewn cynnal sesiynau ymwybyddiaeth iaith i rai sydd yn cychwyn busnes. Bu monitro cysono rhestr ceisiadau cynllunio oedd yn gofyn am arwyddion newydd. Gyrrwyd gwybodaeth am grantiau i'r rhain.

Dosbarthwyd gwybodaeth am grantiau a mantais defnyddio'r Gymraeg i ymholiadau.

I gyd-fynd efo targedau newydd BYIG ni wnaethpwyd unrhyw waith arweiniol y maes yma.

## 2) Sector Gwirfoddol

### Cyfieithu Cymunedol

Llwyddwyd i ddenu £13,000 i gyllido'r cynllun gan gronfa'r CDW. Mae'r cynllun wedi llwyddo i ddenu gweddill eu hincwm drwy fasnachu.

Mae incwm y cynllun wedi cynyddu'n gyson. Gwelwyd trosiant cyson o dros £4,000 y mis.

Cynhaliwyd 2 gwrs yn ystod y cyfnod yma gyda 8 yn mynychu.

Gadawodd ein prif gyfieithydd. Cyflogwyd cyfieithydd o dan hyfforddiant trwy gynllun "GO Wales" a chyllid masnachol. Mae'r swyddog yma wedi mynd yn ei blaen i fod yn brif gyfieithydd. Mae yna gynlluniau i gyflogi 2 gyfieithydd arall o dan hyfforddiant.

Mae'r Cyfieithu Cymunedol Conwy wedi ei sefydlu fel Is-gwmni Menter iaith Conwy efo'i gyfarwyddwyr ei hun.

## 3) Y Sector Cyhoeddus

Rydym wedi derbyn Cytundeb Lefel Gwasanaeth gan Gyngor Sir Conwy.

Mae'r cytundeb yn cynnwys elfennau o fonitro cynllun iaith Cyngor Sir Conwy.

Hefyd rydym yn bwriadu datblygu asiantaeth sgiliau gweinyddol dwyieithog fyddai'n bwydo'r sector cyhoeddus. Bydd arian CDW a Chronfa

Mentergarwch Cymdeithasol Conwy yn cyfrannu at gyflog "Swyddog yr Hen Ysgol" fydd yn gweithio ar y cynllun yma.

## 4) Plant a Phobl Ifanc

*Gweithgareddau efo Ysgolion.* Cafwyd rhaglen o weithgareddau drwy gydweithio efo Ysgolion. Fel canlyniad enillodd MIConwy Cytundeb Lefel Gwasanaeth efo Adran Addysg y Cyngor. Ceir manylion llawn yn yr adroddiadau chwarterol.

*Gweithdai Roc* – Denwyd arian i drefnu cyfres o weithdai roc dros yr Haf ar y cyd gyda'r Urdd a Chymunedau'n Gyntaf Tudno.

Rydym yn parhau i weithio gyda Phrif Athrawon ardal y Glannau i asesu'r angen am ddarpariaeth ar ôl ysgol cyfrwng Cymraeg.

Gigs - cynhaliwyd sawl gig yn ystod y flwyddyn. Ceisiwyd cynnal gig yn Llandudno am y tro cyntaf ond roedd yn aflwyddiannus er i ni weithio'n agos iawn ag Ysgol y Creuddyn. Lleoliadau eraill, lle cynhaliwyd cyngherddau llwyddiannus: Penmaenmawr, Llanfairfechan.

*Gweithgareddau Awyr Agored.*

Clwb Syrffio - Bu cydweithio cyson efo Menter iaith Môn a Chymunedau yn Gyntaf Aberdaron i gynnal rhaglen o weithgareddau (Faint ?)

Clybiau Ffermwyr Ifanc

Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol efo Canghennau Lleol CAFFI, Gweithgareddau, Dwr Gwyn, Judo, Beicio Mynydd  
Dechreuwyd ar y gwaith o drefnu taith wirfoddol Ieuencid Menter Patagonia ar gyfer Hydref 09. Golygai hyn cydweithio efo Mentrau eraill y Gogledd a Swyddogion yr Urdd.

#### *Hyfforddiant*

Mae modd defnyddio Cronfa CDW Hyfforddiant Awyr Agored i hyfforddi Ieuencid.

Bu Swyddog y Glannau yn mynychu cwrs Gwaith Ieuencid sylfaenol 3. Mynychodd 7 aelod o CFFI cwrs hyfforddi Arwain Beicio Mynydd

## **5) Gweithgareddau Cymdeithasol**

### **Cyrsiau Cyfrwng Cymraeg**

Bu cynnydd yn y nifer o gyrsiau cyfrwng Cymraeg a gynhaliwyd yn y sir - trwy gydweithio â Choleg Llandrillo, Elusendai Llanrwst, Prifysgol Bangor ac Ysgol Dyffryn Conwy.

Sbaeneg (Llanrwst), Ffrangeg (Llanrwst), Cyfieithu ar y Pryd (Llanrwst), Cyfieithu Ysgrifenedig (Llanrwst)

### **Adloniant**

Llwyddwyd i gynnal rhaglen o adloniant trwy'r flwyddyn gan gynnwys mwy o ddigwyddiadau ar y Glannau trwy ein pwyllgorau ardal. Ceir y manylion llawn yn ein hadroddiadau chwarterol.

### **Llanast Llanrwst**

Llwyddwyd i gynnal gŵyl lwyddiannus arall. Adroddiad llawn ar gael.

## **6) Dysgwyr**

### **Sesiynau Siarad / Sadwrn Siarad**

Erbyn hyn cynhelir 7 Sesiwn / Sadwrn Siarad yn fisol.

Lleoliadau:

Abergele, Canolfan Hesketh

Bae Colwyn, Clwb Golff Llandrillo yn Rhos.

Glan Conwy, Y Ganolfan Arddio

Llanfairfechan, Canolfan Cwmni Penllan

Llansannan, Y Llew Coch

Llandudno, Caffi Debanams

Penmaenmawr, Tafarn y Gladstone

### **Pecyn Croeso**

Rydym yn cydweithio â'r Bwrdd i ddosbarthu'r argraffiad diweddaraf, a'i adnoddau, trwy arwerthwyr tai'r sir er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i bobl newydd i'r ardal.

### **Cymhathu**

Bu staff y Fenter o ddrws i ddrws yn yr ardal wledig yn hyrwyddo cyrsiau Cymraeg. Mae rhaglen o weithgareddau i ddysgwyr wedi cael ei threfnu yn ardal y berfeddwlad.

Yn dilyn llwyddiant cais Pwyllgor Ardal Y Berfeddwlad mae rhaglen o weithgareddau cymhathu wedi ei threfnu yn yr ardal.

Dr Dail – Llansannan

Dolwyddelan

Golygai llwyddiant cais CDW - Gwersi Cymraeg Niferoedd Isel fod modd i Fenter laith Conwy cynnal gwersi niferoedd isel lle mae'r sustem Cymraeg i Oedolion yn methu. Trefnwyd un dosbarth yn Nolwyddelan ac mae diddordeb yn Llanfair Tal Haearn hefyd ond mae diffyg tiwtor yn rhwystro ei redeg.

Yn fwy effeithiol mae Swyddog Ardal Wledig wedi bod yn gweithio efo'r Gronfa a dysgwyr yn yr ardal wledig er mwyn eu gyrru i Nant Gwrtheyrn i wneud cyrsiau dwys. Hyd yn hyn mae 15 o unigolion wedi bod. Gwelir cynnydd sylweddol yn ei gallu i ddefnyddio Cymraeg yn gymdeithasol.

Ceir manylion llawn o weithgarwch y **Cynllun Cymhathu** mewn adroddiad ar wahân.

## 7) Marchnata

Ceir sylw cyson i'r Fenter Iaith yn y wasg.

Crëwyd taflen Newydd i MIConwy

### **Sioeau Sirol**

Mae pob sioe yn y sir wedi derbyn gwybodaeth am y Fenter ac rydym yn ymweld â sioeau:

Llanrwst, Eglwysbach. Nid oedd y tywydd yn caniatáu i ni ymweld â Sioe Cerrigydrudion i hyrwyddo gwaith y Fenter.

### **Cyfarfodydd a Phartneriaid**

Sefydlwyd Partneriaeth Sirol i gynorthwyo cydweithio rhwng holl bartneriaid y Bwrdd yn y Sir.

Sefydlwyd Partneriaeth Darparwyr Ieuenctid Cyfrwng Cymraeg

Mynychwyd nifer o gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

Mentrau Iaith Cymru (ail-etholwyd Meirion Davies yn Gadeirydd Staff y Mentrau)

Mentrau'r Gogledd, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Yr Urdd, Twf, Gwobr Dug Caeredin, WCVA, CYD, Parc Cenedlaethol Eryri, Heddlu Gogledd Cymru.

## 8) Cynlluniau Penodol

### **Yr Hen Ysgol, Llanrwst**

Arian wedi ei sicrhau drwy'r CDW a CMC Conwy i gyflogi Swyddog i ddatblygu'r safle ac mae cytundeb gennym gyda chwmni Pennaf i gydweithio ar gyfer datblygu'r safle. Ein bwriad yw datblygu'r cynlluniau canlynol;

- **Asiantaeth Hyfforddi a Chyflogi Sgiliau Gweinyddol**
- **Asiantaeth Hyfforddi a Chyflogi Sgiliau Awyr Agored**
- **Radio Cymunedol**
- **Stiwidio Gymunedol**
- **Oriel a gofod perfformio**

Yn ogystal â hyn bydd angen ymgynghoriad pellach gyda'r gymuned.

## 9) Mentrau Iaith Cymru

Mae Prif Swyddog MIConwy hefyd yn Gadeirydd pwyllgor staff Mentrau Iaith Cymru ac wedi cynorthwyo i ddatblygu'r cynlluniau canlynol;

**Menter Patagonia.** Llwyddwyd i ddenu cyllid a sefydlu Menter Iaith ym

Mhatagonia. Erbyn hyn mae 2 swyddog yn gweithio ar y cynllun yn Y Wladfa.

**Cynllun Cyfnewid Stadiwm y Mileniwm.** Cais i hyrwyddo cydweithio rhwng y Mentrau.

**Brwydr y Bandiau C2 a Mentrau Iaith Cymru.** Er gwaethaf nifer o drafferthion ymarferol cynhaliwyd y gystadleuaeth yma diolch i waith cydlynu Iwan Glyn a staff mentrau unigol.

**Gwyliau Cymraeg.** Bu Eiliw Glyn, Swyddog Treftadaeth MIConwy yn gyfrifol am ddiweddarau'r safle yma.

**Cyfarfod gyda'r Gweinidog Iaith a Diwylliant.** Bu'r Prif Swyddog a Swyddog Mentrau Iaith Conwy yn cyfarfod â'r gweinidog i lobio am adnoddau i'r Mentrau Iaith.

**Cyfarfod gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg.** Bu'r Prif Swyddog a Swyddog Mentrau Iaith Conwy yn cyfarfod â'r Prif Weithredwr i lobio am adnoddau i'r Mentrau Iaith.

## **I Gloi**

Llwyddodd Menter Iaith Conwy i gynyddu ei raglen gweithgareddau yn sylweddol eleni.

Bu symudiad pendant i gyflwyno cynlluniau sy'n mynd ymhellach na hyrwyddo'r Gymraeg ar lefel arwynebol. Mae'n cynlluniau hyfforddi a datblygu cymunedol wedi eu hanelu at gryfhau sylfaen y Gymraeg yn gymunedol trwy greu cyfleoedd cyflogaeth i siaradwyr Cymraeg o fewn y Sir.

Buddsoddwyd llawer iawn o amser mewn llunio ceisiadau ariannol sylweddol. Rydym yn gwybod erbyn hyn fod y ceisiadau yma wedi bod yn llwyddiannus. Heb os bydd hyn yn naid ymlaen i Fenter Iaith Conwy o ran adnoddau cyllidol a dynol.

Gobeithiwn yn fawr weld ffrwyth y gwaith yma yn y flwyddyn i ddod.

### **Meirion Davies**

*(Cyfarwyddwr Datblygu MlConwy)*